

PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 29 TACHWEDD 2016

Yn
bressenol: Cynghorydd Ian Arundale(Caedeirydd)

Y Cynghorwyr Howells, Kelloway, McGarry, Mitchell, Murphy,
Weaver a/ac Walker

42 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Price.

43 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Dyweddod y Cadeirydd fod dau aelod annibynnol newydd wedi'u penodi i'r Pwyllgor. Penodwyd David Price i'r swydd wag a byddai Gavin McArthur yn ymuno â'r Pwyllgor ar 1 Rhagfyr 2016 er mwyn llenwi'r swydd sydd ar fin bod yn wag pan fydd Yr Athro Maurice Pendlebury yn ymddiswyddo ar 27 Tachwedd 2016.

Roedd Gavin Mc Arthur yn bresennol fel arsyllwr.

Yn ogystal, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau nad oedd yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a oedd wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Ionawr a mis Mawrth 2017 oherwydd ymrwymadau eraill.

Ceisiwyd enwebiadau am Is-gadeirydd newydd. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai Hugh Thomas gael ei benodi fel yr Is-gadeirydd newydd.

44 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Y Cynghorydd Mitchell	Eitem 4	Aelod Teulu Gweithiwr Cymdeithasol
Y Cynghorydd Howells	Eitem 10.1	Llywodraethwr Ysgol

45 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

46 : MATERION GWEITHREDOL

Datganodd y Cynghorydd Mitchell fuddiant yn yr eitem hon o dan God Ymddygiad yr Aelodau, oherwydd bod aelod o'r teulu wedi'i gyflogi gan Wasanaethau Cymdeithasol.

Croesawodd y Cadeirydd Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod. Cydnabu'r Cadeirydd y sefyllfa mae'r Gyfarwyddiaeth yn cael ei hun ynddi a'r anawsterau yn nhermau galw ar y gwasanaeth yn y cyd-destun cenedlaethol. Cylchredodd y Cyfarwyddwr bapur briffio CLILC a ddangosodd, yn genedlaethol, fod Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol mewn diffyg o £92 miliwn o ganlyniad i bwysau galwadau gwasanaeth. Byddai'r ymarfer mapio a gynhelir ar hyn o bryd yn arwain cynnig Caerdydd dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn dweud wrth aelodau am y rhesymau gwaelodol am y sefyllfa ariannol niweidiol yn erbyn y gyllideb yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar alldro 2015/16 ac fel y'i ragamcenir yn adroddiad monitro cyllideb mis 4. Cyflwynwyd yr adroddiad yn dilyn cais gan y Pwyllgor Archwilio.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Dywedodd y Cyfarwyddwr, pan fethodd lleoliadau gofal maeth gyda darparwr sector preifat ymddangos, er mwyn cyrraedd targedau arbedion, cymerwyd darparwr arall ymlaen.
- Dywedwyd wrth aelodau y daeth y darparwr sector preifat ar draws problemau wrth recriwtio gofalywyr maeth, yr oedd llawer ohonynt yn dychwelyd i'r Cyngor o'r sector preifat, oherwydd yn well gyda nhw werthoedd y Cyngor. Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn nhermau'r Strategaeth Gwasanaeth Integredig/ Ariannol, nod y swyddogion oedd cynhyrchu set fanwl o gynigion cynnig gwasanaeth – wedi'u hanelu at lefelau fforddiadwyedd gwahanol – erbyn diwedd mis Ionawr 2017. Gofynnodd yr aelodau a oedd mis Ionawr 2017 yn ddyddiad targed realistig. Nododd y Cyfarwyddwr fod disgwyl am y cynigion amlinellol erbyn diwedd mis Ionawr 2017 ond mae'n bosibl y bydd angen rhagor o waith ar y rhain cyn iddynt gael eu terfynu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnodd yr aelodau i'r cynigion wedi'u terfynu gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cabinet. Ymrwymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i hwyluso'r cais hwn.
- Gofynnodd aelodau am syniad o ble yr enillid prif feysydd o'r gwariant comisiynu a sut fyddai'r rhain yn ffitio i mewn i'r model strategol. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r adroddiad Cabinet yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Cynigiwyd cyfamswm o £3.35 miliwn mewn arbedion comisiynu y flwyddyn nesaf. Byddai'r arbedion yn dibynnu ar ragdybiaethau sy'n perthyn i becynnau gofal a sut fyddai'r farchnad yn ymateb i'r rhain. Byddai'r Gyfarwyddiaeth bob amser yn ymdrechu i gael gwerth gwell gan ddarparwyr ar gost is i'r awdurdod.
- Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cynigwyr cynnig gwasanaeth yn cario mwy o risg i'r awdurdod po isaf fo'r gost. Yng Nghaerdydd, mae trigolion wedi gweld ymrwymiad i'r rhai sy'n agored i niwedd o'r awdurdod. Bellach mae'r Gyfarwyddiaeth angen cynaliadwyedd yn nhermau ei hadnoddau. Mae gan y Ddinas boblogaeth pobl hŷn sy'n tyfu ac yn ogystal mae

angen rhoi ystyriaeth i effaith tlodi ar fywyd teuluol. Mae modelu ariannol yn dangos bod graddfa twf gwariant yn arafu.

- Nododd aelodau fod y Gyfarwyddiaeth wedi gorwario ei gyllideb yn barhaus dros flynyddoedd lawer. Gofynnwyd i'r Gyfarwyddwr pryd bydd byddai'r Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa i symud y tu hwnt i fethiannau ei rhagflaenwyr. Dangosodd y Gyfarwyddwr y byddai'r cynigion Strategaeth Gwasanaeth yn rhoi'r Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa lawer gwell, lle y disgwylir llai o syndodau.
- Gofynnodd y Gadair i'r Cyfarwyddwr wneud sylwadau ar strwythur cyllideb y gyfarwyddiaeth. Dywedwyd wrth aelodau y cefnogir y Gyfarwyddiaeth yn gorfforaethol ac nid oedd y Cyfarwyddwr yn anfodlon ar y gyllideb a dderbyniwyd. Eglurodd y Cadeirydd y pwynt hwn cyn belled ag y perthnasedd at sut yr adeiladir y gyllideb. Dywedodd y Gyfarwyddwr fod adroddiadau monitro yn dryloyw ac y defnyddir y rhain i adnabod tueddiadau. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn ceisio cymryd safbwynt cytbwys a bydd y strategaeth 5 i 10 mlynedd yn darparu amlen ariannol y mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu y tu mewn iddo.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion yn fodlon ar ansawdd y gofal trigfannol a ddarperir yn y Ddinas. Dywedodd y Cyfarwyddwr y bu gofal trigfannol yn destun 3 archwiliad ar wahân dros y 12 mis diwethaf. Bu adborth o'r archwiliadau hyn yn dda iawn, er y derbyniodd y Cyfarwyddwr fod gwaith i'w wneud o hyd Roedd Gweithdrefn Esgoli ar waith a chaiff ei chymhwyso lle nad yw gwasanaethau'n cyrraedd y safon.
- Gofynnodd yr aelodau, os nad oedd unrhyw gorwario, yr ystyriodd y Cyfarwyddwr fod y gyllideb sylfaen yn ddigonol. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gyllideb Gwasanaethau Oedolion yn sefydlog – ac eithrio cynnydd o 7% o ran taliadau gofal trigfannol. Mae cyllideb sylfaenol Gwasanaethau Plant yn anoddach ei rhagfynegi. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn amcan iddo ddileu gorwariant yn y dyfodol ac mai dyna beth mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag ato.
- Cydnabu'r Gyfarwyddwr y cafodd y codiad o 6% o ran chwyddiant a ragfynegir dros y 3 blynedd nesaf i ystyriaeth. Nodir chwyddiant fel pwysau cyllidebol ar y gwasanaeth.

PENDERFYNWYD – Yn dilyn y cyfarfod, dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at y Prif Weithredwr a Swyddogion Adran 151 yn amlinellu sylwadau'r Pwyllgor.

Cyllid
47 : CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod gwaith ar y gweill i gyflawni sefyllfa gytbwys ar y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae monitro refeniw mis 6 yn dangos gorwario a rhagwelir o £537,000 a oedd yn welliant o £313,000 ar sefyllfa Mis 4. Mae mwyafrif y gyfarwyddiaethau yn adrodd sefyllfaoedd gwell o'u cymharu â mis 4.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y sefyllfa gyffredinol yn adlewyrchu pwysau a diffygion ariannol yn erbyn targedau arbedion yng nghyllidebau'r gyfarwyddiaeth a gafodd eu gosod yn erbyn arbedion cyllidebol ar arian cyfalaf, rhyddhau cyllidebau cyfwng, gwarged a rhagwelir ar gasglu Treth y Cyngor ac ad-daliadau Trethi Annomestig ar eiddo'r Cyngor. Rhagfynegir y bydd cyllidebau'r cyfarwyddiaethau yn gorwario gan £6.643 miliwn, fodd bynnag, rhagwelir y caiff hyn ei leihau gan ddiwedd y flwyddyn. Roedd y sefyllfa bresennol yn cynnwys gorwario a rhagfynegir o ran Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli Corfforaethol. Cafodd gorwariant y gyfarwyddiaeth ei osod yn rhannol yn erbyn y gyllideb cyfwng o £4 miliwn. Darparodd Adnoddau'r Cyfarwyddo Corfforaethol drosolwg i Aelodau'r Pwyllgor gyda throsolwg o sefyllfa ariannol pob Cyfarwyddiaeth.

Dywedwyd wrth aelodau bod y gorwario posibl yn cynnwys diffyg a ragfynegir yn erbyn yr arbedion a nodwyd ar gyfer pob cyfarwyddiaeth fel rhan o'r gyllideb 2016/17, ynghyd â diffygion o ran targedau arbedion a dygir ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelir diffyg o £5.611 miliwn ar gyfer 2016/16. Cafodd diffyg wedi'i ragfynegi o £1.751 wedi'i nodi o 2015/16. Pan fo'n bosibl cafodd y diffygion eu gosod yn erbyn arbedion mewn meysydd cyllideb eraill.

Cymeradwyodd y Cabinet a'r Cyngor yr adroddiad Strategaeth Gyllidebol fis Gorffennaf 2016. Mae Cyfarwyddiaethau wedi adolygu a diweddaru eu cynigion o ran arbedion ac wedi profi eu cyrraeddadwyedd fel rhan o sefydlu safbwynt cyllidebol cytbwys i'w cymeradwyo gan y Cyngor fis Chwefror 2017. Nododd y Adroddiad Strategol Gyllidebol fwlch yn y gyllideb o £24.3 miliwn yn 2017/18 a £75.3 miliwn dros y cyfnod at 2019/20. Disgwylwyd i arbedion y Gyfarwyddiaeth ddod i £43 miliwn dros y tair blynedd. Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori ar Gynigion Cyllidebol ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 10 Tachwedd 2016.

Gofynnwyd i aelodau sylwi y cafodd Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ar 19 Hydref 2016 a osododd cynnydd ariannol o 0.3% o Gyllid Allanol Cyfanredol ar gyfer Caerdydd. Roedd hyn gyfwerth â £1.437 o arian ychwanegol, ond mae ffactorau eraill gan gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol yn golygu mai'r cynnydd arian gwirioneddol ar gyfer Caerdydd oed £887,000.

Nododd yr aelodau ffigwr y setliad dros dro a gofyn a oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau dyrannu grantiau penodol. Dywedodd swyddogion nad ydynt wedi derbyn cadarnhad o gyllid grant penodol o Lywodraeth Cymru. Rhagwelwyd y câi rhagor o wybodaeth o ran cyllid grant ei chynnwys yn y cyhoeddiad o'r setliad terfynol.

Yn nhermau'r ymgynghoriad cyllidebol, gofynnol swyddogion i egluro a ymgynghorid ag unrhyw un o'r sefydliadau yr effeithir arnynt gan y cynigion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod ymgynghori ag unrhyw sefydliadau yr effeithir arnynt gan y cynigion cyllidebol yn gyfredol. Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r sefydliadau yr effeithiwyd arnynt ar gael i Aelodau ond nid oedd y wybodaeth eto'n gyhoeddus.

PENDERFYNWYD – Fod y wybodaeth ariannol yn yr adroddiad a'r broses a gâi ei mabwysiadu o ran paratoi at gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cael ei nodi.

48 : CIPOLWGW AR WYDNWCH ARIANNOL - MIS 6

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu eitemau o wybodaeth i'r Aelodau sy'n helpu i gefnogi gwydnwch ariannol ac yn darparu gwybodaeth a data meincnodi ar wydnwch ariannol y cyngor.

Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol;

- Cipolwg ar Wydnwch Ariannol - Mis 6 2016/17
- Cymarebau ariannol sy'n deillio o'r Datganiad Cyfrifon dros Gymru gyfan ar gyfer 2013/14 a 2014/15;
- Protocol Arian wrth gefn wedi'i glustnodi ar gyfer y Cyngor sy'n cynnwys balansau arian wrth gefn wedi'i glustnodi o 31 Mawrth 2016;
- Yr ymagwedd a'r polisi ar Sefyllfa Lleiafswm Arian dros Ben.

Nododd yr aelodau fod 19.5% o'r arbedion a ragfynegwyd ar gyfer 2016/17 heb eu cyflawni hyd yn hyn. Gofynnodd yr aelodau a oedd y broses ar gyfer cyflawni arbedion yn wydn ac yn gadarn. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y cynhaliwyd ymarfer i ddeall pa arbedion nas cyflawnwyd oedd yn perthyn i oedi o ran amseru a beth nad oedd yn gyflawnadwy. Caiff yr arbedion hynny yr ystyrir eu bod yn anghyflawnadwy eu dileu. Gofynnodd aelodau am ragor o fanylion o sut y caiff arbedion eu nodi fel rhai nad ydynt yn gyflawnadwy a sut y dadansoddir hynny. Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y caiff nifer y prosesau eu defnyddio.

Nododd rheolau y cafodd y gyllideb gyfwng ei lleihau gan 25% yn 2017/18. Sylwodd swyddogion y bu'r gyllideb gyfwng yn £4 miliwn ers nifer o flynyddoedd ac yn ystod y cyfnod hwn wynebodd yr awdurdod cyflawni £40 miliwn o arbedion mewn blwyddyn. Y flwyddyn nesaf, mae'n rhaid i'r awdurdod gyflawni arbedion o £17 miliwn a barn y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau oedd y dylid lleihau'r gyllideb gyfwng yn unol â hyn.

Nododd yr aelodau fod gan Gaerdydd y lefel isaf o arian wrth gefn yng Nghymru a gofynnodd a oedd cadw arian wrth gefn ar lefel mor isel yn 'beryglus'. Ystyriodd swyddogion nad oedd yr arian wrth gefn yn beryglus o isel a dadleuodd y gellid ystyried fod gan rai awdurdodau ormod wrth gefn. Nododd yr adroddiad fod arian wrth gefn Caerdydd yn ddigonol.

PENDERFYNWYD:

- (1) y caiff yr adroddiad ei nodi; a
- (2) bod y Pwyllgor yn cytuno i barhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd ar wydnwch ariannol.

Llywodraethu a Rheoli Risg

49 : LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

Derbyniodd y Pwyllgor Ddiweddariad Canol blwyddyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) 2016/17

Cafodd Chris Pyke a Vivienne Pearson eu gwahodd i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedwyd wrth aelodau fod y CRR yn cynnwys 24 o risgiau a aseirir i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Cafodd pob risg ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ganol y flwyddyn. Cyflwynwyd y CRR i'r Uwch Dîm Rheoli ar 15 Tachwedd 2016 er mwyn ennill eu cytundeb ar y cyd.

Arweiniodd yr adolygiad o'r CRR at y newidiadau canlynol:

- Ychwanegwyd dau risg newydd – Hyrwyddo Annibyniaeth (i gymryd lle Trosglwyddo Gofal) a Diogelu
- Cafodd dau risg eu israddio o goch i goch/ambr – Datblygiad Sefydliadol a Rheoli Perfformiad
- Cafodd un risg ei israddio o goch/ambr i wyrdd – Cynllun Trefniadaeth Ysgolion
- Mae un risg wedi parhau â'r un sgôr blaenoriaeth cyffredinol - Llywodraethu Gwybodaeth
- Cafodd dau risg eu dileu – Cynllun Datblygu Lleol a Throsglwyddiadau Gofal wedi'u Hoedi

Croesawodd aelodau'r adolygiad a'r ymgysylltu â Chyfarwyddiaethau a gofyn faint ymhellach y gall yr ymgysylltu hwn fynd. Dywedodd swyddogion y cafodd yr adolygiad eu dderbyn yn ffafriol gan y tîm rheoli. Teimlodd swyddogion y gall y gofrestr risg helpu'r tîm rheoli gan arwain y broses gwneud penderfyniad.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys syniad o ble mae risg yn dirywio ac mae angen mynd i'r afael ag ef. Dywedodd swyddogion eu bod yn bwriadu'r lefel manylder hon mewn adroddiadau'r dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd a gafodd y seiber-ddiogelwch ei adlewyrch yn y CRR. Dywedwyd wrth yr aelodau y caiff pryderon o'r fath eu hadlewyrchu mewn elfennau'r gofrestr ond gall swyddogion edrych ar asesu'r mater o seiber ddiogelwch yn ei hawl ei hun. Ystyriodd y Cadeirydd fod seiber ddiogelwch yn gynyddol gyffredin fel mater ac felly roedd yn berthnasol gofyn y cwestiwn.

PENDERFYNWYD- y dylid nodi cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

50 : DATGANIADAU SICRWYDD YR UWCH REOLWYR

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid adroddiad yn crynhoi y Datganiadau Sicrwydd yr Uwch Rheolwyr (SMAS) cyflawn ar gyfer y sefyllfa ganol blwyddyn 2016/17. Wedi'i atodi i'r adroddiad oedd crynodeb o'r holiadur a ddychwelwyd gan swyddogion yr uwch dîm rheoli.

Gofynnodd aelodau sut yr aseswyd priodoldeb ymatebion ac a oedd ymatebion yn agored i'w herio'n allanol. Dywedwyd wrth aelodau fod yr ymatebion yn cynrychioli corff y gyfarwyddiaeth. Câi ymarfer ychwanegol ei gynnal er mwyn ymgysylltu â'r staff sy'n is la lefel uwch rheolwyr. Byddai hyn yn amodol ar arfarniad annibynnol.

Cadarnhaodd swyddogion y caiff y datganiadau sicrwydd eu darparu yn yr achosion hynny lle yr ystyrir yr ymatebion yn 'rhannol'. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwella'r ddogfen pe câi'r ymatebion 'rhannol' eu darparu yn y dyfodol.

51 : CYNLLUN GWEITHREDU/ADBORTH HUNAN-ASESIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Derbyniodd y Pwyllgor ganlyniadau Gweithdy Hunanasesu'r Pwyllgor a gafodd ei gwblhau ar 19 Medi 2016. Yn ogystal derbyniodd y Pwyllgor Gamau Gweithredu Gwella Hunasesu.

Dywedwyd wrth aelodau fod yr hunanasesiad wedi nodi na chafodd Aelodau'r Pwyllgor eu hasesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd. Cynigiodd y Cynllun Gweithredu y dylai Aelodau gael eu hasesu er mwyn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, fel bod ar y cyd, mae'r sgiliau allweddol yn bresennol. Argymhellwyd y dylid treialu hyn fis Ionawr 2017 gyda'r bwriad o'i ddadansoddi'n ddwsach ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

Roedd y tri maes a nodwyd fel rhannol gyflawn yn perthyn i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio. Cytunwyd bod adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn angenrheidiol er mwyn darparu rhagor o eglurder diben.

Cafodd dwy eitem eu dwyn ymlaen o'r hunanasesiad blaenorol: atgyfnerthodd y Pwyllgor Archwilio bwysigrwydd cael sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio y ffordd orau oll a'r angen parhaus i fonitro perfformiad y swyddogaeth Archwilio. Roedd yr ail eitem yn perthyn i sicrhau bod y berthynas rhwng y Pwyllgor Archwilio Chraffu wedi'i diffinio'n glir.

PENDERFYNWYD – Y câi'r cynllun gweithredu hunanasesiad ei gymeradwyo

52 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Nododd Janet McNicholas o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) nad oedd unrhyw adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i aelodau eu hystyried. Cyfeiriodd Ms McNicholas at y Datganiad o Gyfrifon wedi'u Harchwilio. Dywedwyd wrth yr aelodau bod SAC yn bwriadu dosbarthu'r tystysgrif cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor y rhesymau am yr oedi wrth ddsbarthu'r dystysgrif cwblhau. Ystyriodd y Pwyllgor y cafodd y Cyngor ei roi mewn sefyllfa anodd o ganlyniad i sylwadau hwyr yn cael eu derbyn gan nifer fach o ymatebwyr. Gofynnodd yr aelodau a yw SAC wedi ystyried gweithredu mecanwaith a fyddai'n atal cwestiynau hwyr, sydd o bosibl yn foleisus rhag cael eu cyflwyno. Awgrymwyd y gellid cyflwyno cwestiynau o fewn amserlen benodol.

Dywedodd Janet McNicholas y rhestrir derbyn sylwadau yn y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw newidiadau yn gofyn am newid o ran deddfwriaeth. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid fod SAC wedi dweud na chaiff

preswylwyr eu hatal rhag cyflwyno sylwadau, ond gellir rhoi cynllun cyfwng ar waith er mwyn sicrhau y caiff sylwadau hwyr eu rheoli mewn ffordd briodol.

Dyweddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod cyfrifon yr awdurdod yn cael eu harddangos yn gyhoeddus drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Dylai'r awdurdod ddisgwyl derbyn cwestiynau yn ystod y cyfnod priodol. Awgrymwyd y dylai'r hysbysiad cyhoeddus nodi cyfnod o amser am gyflwyno ymatebion. Gofynnodd y Pwyllgor i SAC fynd i'r afael â'r materion hyn gyda Llywodraeth Cymru.

53 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu diweddariad i Aelodau ar y rhaglen waith y bwriedir iddynt gael eu cynnal gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2016/17. Dywedwyd wrth yr aelodau, yn ystod y cyfnod mis Hydref a dechrau mis Tachwedd, cafodd dau adroddiad astudiaeth llywodraeth leol eu dosbarthu mewn perthynas â Diogelwch Cymunedol yng Nghymru ac Ymagwedd Strategol Cynghorau at Generadu Incwm a Chodi Tâl am Wasanaethau.

Atodwyd yr argymhellion o'r ddau adroddiad astudiaeth i'r adroddiad. Gofynnwyd i aelodau nodi, yn benodol ynglŷn â'r adroddiad ar gyfer Diogelwch Cymunedol, bod nifer o'r argymhellion yn perthyn yn gyfartal i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau..

Gofynnodd y Pwyllgor fod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar adroddiadau astudiaeth, fel sy'n briodol, mewn cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Rheoli'r Trysorlys

54 : RHEOLI'R TRYSORLYS

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a ddarparodd wybodaeth am berfformiad a datganiadau o sefyllfa Rheolwyr y Trysorlys fel yr oedd ar 31 Hydref 2016. Gwahoddodd y Cadeirydd Nicola Greenwood i gyflwyno'r adroddiad.

Cafodd y datganiadau o sefyllfa yn nhermau buddsoddiadau a benthyca eu hatodi i'r adroddiad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi y bu ond ychydig o newid ers y sefyllfa flaenorol a adroddwyd i'r Pwyllgor fis Medi 2016.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

55 : ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Canol Blwyddyn Rheolwyr y Trysorlys 2016/17.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol

56 : ARCHWILIAD MEWNOL

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Datganodd y Cyng. Howells fuddiant yn yr eitem hon o dan God Ymddygiad yr Aelodau oherwydd ei fod yn llywodraethwr ysgol ar y pryd.

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn darparu diweddariad ar waith Archwiliad Mewnol hyd at 30 Medi 2016. Trafododd yr aelodau'r darganfyddiadau a restrir yn yr atodiad i'r adroddiad. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad o nifer o'r materion hynny.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i'r Tîm Ymchwiliadau. Ystyriodd yr aelodau fod mater yr adnoddau sydd ar gael i'r Adran Archwilio yn thema a ailadroddir ond dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid nad oedd tystiolaeth mai dyma oedd yn wir.

PENDERFYNWYD:

- (1) Y câi'r adroddiad ei nodi;
- (2) Y câi pryderon y Pwyllgor ynglŷn â'r adnoddau a ddyrennir i'r Tîm Ymchwiliadau eu nodi.
- (3) Y câi Polisi Erlyniadau ei ddrafftio i gynnwys mecanwaith y gall yr awdurdod adennill costau cyfreithiol trwyddo.

57 : ADRODDIADAU DIM SICRWYDD ARCHWILIADAU MEWNOL

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016, gofynnodd y Pwyllgor, y câi'r Adroddiadau Archwilio Dim Sicrwydd a ddogfennwyd yn y cyfarfod hwnnw, ac unrhyw faterion eraill a nodwyd ers hynny, eu hadrodd yn y cyfarfod hwn. Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid ddiweddariad ar gynnydd a wnaed ers yr adroddiadau Dim Sicrwydd ynglŷn ag Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands.

PENDERFYNWYD:

- (1) Y câi'r adroddiad ei nodi;
- (2) Y byddai Pennaeth yr Adran Gyllid yn darparu adroddiad Arolygiad Estyn ar gyfer Ysgol Arbennig Riverside i Aelodau'r Pwyllgor.

58 : GWERTH AM ARIAN

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad o'r adroddiad ar astudiaethau Gwerth am arian.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y dadansoddiad o wariant yr asiantaeth yn cymharu data o 2015/16 tan 2014/15. Parhaodd gwariant ar asiantaethau'n weddol statig. Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am ddadansoddiad o ble yr ystyrir bod gwariant ar asiantaethau'n gyfiawnadwy. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid, er bod elfen o oddrychedd o bosibl, gallai ofyn i'r gwasanaethau am y wybodaeth hon. Yn ogystal, gofynnodd aelodau am adroddiad yn cymharu telerau ac amodau ar gyfer staff yr awdurdod hwn â thelerau ac amodau awdurdodau eraill. Cytunodd Pennaeth yr Adran Gyllid i adrodd hyn i gyfarfod yn y dyfodol hefyd.

PENDERFYNWYD:

- (1) Y câi'r adroddiad ei nodi;
- (2) Bod Pennaeth yr Adran Gyllid yn cyflwyno adroddiad sy'n darparu dadansoddiad o wariant cyfiawnadwy ar asiantaethau ar draws gwasanaethau ac eglurhad o'r gwariant ar asiantaethau o £16 miliwn i gyfarfod yn y dyfodol.
- (3) Bod Pennaeth yr Adran Gyllid yn cyflwyno adroddiad datganiad o sefyllfa ar delerau ac amodau staff a chymhariaeth â thelerau ac amodau mewn awdurdodau eraill.

59 : LLYTHYRON CRAFFU WEDI'U CYHOEDDI

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

60 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD:

(1) Y câi'r adroddiad ei nodi;

(2)

Bod Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Adran Gyllid yn cylchredeg yr adroddiad Cabinet ar y Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau er mwyn casglu sylwadau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet fis Ionawr 2017.

61 : MATERION BRYD

Dim materion bryd

62 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Ionawr 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm